COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 3YDD O FEDI 2025

Yn bresennol: Y Cadeirydd: Aron Roberts

Y Cynghorwyr: Sarah Hughes, Hefin Jones,
Enid Roberts, Annest Smith, Idwal Williams, Aranli Thomas.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)

Ymddiheuriadau: Llywarch Davies, Richard Davies,Elfed Roberts (Cynghorydd Sir), Iwan Jones, A. Huw Jones.

## 2472 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 3ydd o Orffernnaf fel y rhai cywir gan y Cadeirydd.

## 2473 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddodd y Clerc bod e-bost wedi ei dderbyn gan Liz Saville Roberts yn nodi nad oedd wedi llwyddo i agor y grynodeb a yrrwyd ymlaen gan y Cyngor. Adroddwyd yn ogystal bod pennaeth Ysgol Bro Hedd Wyn wedi gyrru e-bost gyda'i phryderon am yr ardal hon. Cytunwyd i yrru e-bost yn ôl i Liz Saville Roberts yn nodi bod crynodeb Pennaeth Ysgol Bro Hedd Wyn yn ddigon o grynodeb o'r digwyddiadau ac os y byddai eisiau rhagor o wybodaeth i ddod yn ôl atom.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones nad oedd diweddariad pellach. Adroddwyd bod Mr Tom Williams a Mrs Elin Parry Jones a yn bwriadu dod i gyfarfod y Cyngor ym mis Hydref.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd bod dwy ddamwain ddifrifol wedi digwydd dros yr Haf yn yr un man ar waelod yr A4212 a damwain arall ar gyffordd Bro Islyn. Penderfynwyd y byddwn yn gofyn am rif y ddamwain i'r Heddlu ar gyfer damwain Bro Islyn. Adroddwyd bod y Cynghorydd Hefin Jones wedi gyrru lluniau ymlaen i'r Cynghorydd Sir Elfed Roberts a'i fod o am yrru rhain ymlaen i Mrs June Jones o Gyngor Gwynedd er mwyn agor portffolio o'r damweiniau sydd wedi digwydd. Adroddwyd bod disgyblion Ysgol Bro Hedd Wyn am gael diwrnod iechyd a diogelwch ar ddiwrnod cyntaf yn ôl yn yr ysgol ac am gynhyrchu posteri. Adroddwyd bod y gwair ar waelod cyffordd yr A4212 wedi gôr-dyfu a bod lleoliad arwyddion diweddar Cyngor Gwynedd yn atal unigolion rhag gweld i'r ffordd. Cytunwyd i yrru e-bost i Gyngor Gwynedd bod angen torri'r gwair a ail leoli'r arwyddion.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod adroddiad gan Bold Enviromental wedi dychwelyd. Gwnaethpwyd asesiad haen 1 ac i i grynhoi, mae'r asesiad yn ystyried bod y safle'n addas; gyda'r lleoliad cyffredinol yn arwain at risg 'Gymedrol' i ddŵr daear.(Mae'r rhan fwyaf o Asesiadau Haen 1 yn dod o dan y categori hwn). Mae'r safle'n cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol, ond gan nad oes gwybodaeth bendant am lefelau dŵr daear, mae'n debygol iawn y bydd angen Asesiad Haen 2 gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae Bold Enviroment wedi argymell bod hynny'n cael ei gwblhau. Un dewis arall, fyddai siarad eto â pherchennog y tir a gweld a ellir prynu tir ochr yn ochr â (gogledd) y fynwent bresennol. Pe bai hynny'n wir, yna byddwn yn cael gwared ar unrhyw problem, a gallai'r safle fwrw ymlaen heb unrhyw asesiad pellach. Penderfynwyd i yrru llythyr i'r perchennog yn gofyn a fyddai'n cysidro gwerthu'r darn penodol yma o dir i'r Cyngor.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddwyd bod y Cynghorydd Hefin Jones ei fod am gael pris arall gan T D Plant Hire gan gwmni arall sy'n dod i roi llinellau gwyn ar ôl i'r gwaith ail wynebu ddigwydd yn y pentref. Cytunwyd i'r gwaith gael ei gwblhau'n dilyn cael y pris.
2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd bod y plac metel y parc Cenedlaethol wedi dychwelyd. Cytunwyd i gael plac i'r diweddar Mr Isgoed Williams yn ogystal a Mr Keith O'Brien yno. Cytunwyd i aros i Mr Elfed Roberts adrodd yn ôl. Adroddwyd bod bill wedi ei dderbyn gan Mr David Owen am £600 ond ei fod wedi ei dorri i lawr.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod y pensaer Rhys Davies wedi gyrru ein sylwadau ymlaen i'r Parc Cenedlaethol, a rydym yn aros am ymateb.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddodd y Clerc iddi dderbyn e-bost gan Ms Elin Parry Jones yn nodi ei fod am fynychu'r cyfarfod ym mis Hydref. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Hefin Jones yn cysylltu gyda pwyllgor y Sioe i ofyn caniatâd i roi y faner i fyny yng nghae'r sioe.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael ymateb yn nodi Adra nad oedd gennynt denant or enw Mr Julian McMahon yn byw yn Bro Prysor. Cytunwyd i yrru e-bost yn ôl yn nodi nad oedden erioed wedi dweud bod Mr McMahon yn denant a'n bod wedi nodi ei fod yn creu trafferth a mae ganddynt denant yno a enwi'r tenant sy'n byw yn rhif 5 sydd hefyd methu cael mynediad i cefn ei thŷ. Cytunwyd i nodi'n ogystal os nad ydym am gael datrysiad ein bod am drosglwyddo'r mater i'r ombusman.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol nad oedd Ceri wedi dod ôl ati i ddweud ei bod wedi lansio. Pan fydd y swyddog ariannol yn ymwybodol o'r dyddiad lansio'r wefan yna caiff y sawl sydd am gael yr hyfforddiant eu hysbysu.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Adroddwyd bod y gwaith ail wynebu wedi dechrau ond bod y bysus wedi stopio dod trwy Trawsfynydd yn gyfan gwbl. Yr unig opsiwn yw i unigolion ddal y bws ym Mronaber neu Gellilydan. Mae hyn wedi achosi trafferthion mawr i'r trigolion. Cytunwyd i roi nodyn ar Facebook y cyngor i ofyn i'r trigolion am unrhyw ffordd mae'r diffyg bysiau wedi effeithio arnyn nhw ac i yrru e-bost i Mr Gerwyn Jones i nodi ein pryderon a copïo cyngor Gwynedd, Mabon ap Gwynfor, Lloyds Coches a Thrafnidiaeth Cymru.

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Swyddog Ariannol nad yw dal heb gael y mapiau'n ôl gan Mr Williams a bod y gwair wedi gôr dyfu'n wyllt. Cytunwyd i barhau i aros i Mr Williams.

2429(2) - Mynwent Salem – Adroddwyd bod Mr Robat Jones wedi cwblhau'r gwaith. Arwyddwyd siec iddo gan y Swyddog ariannol, y Cynghorydd Idwal Williams a'r Cynghorydd Enid Roberts.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc bod Adra wedi ymateb yn dweud mai nid eu cyfrifoldeb nhw ydi'r ffordd gefn yma a mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ydyw. Mae'r mater bellach wedi ei gyfeirio'n awr wedi cyfeirio ymlaen i Mr Adrian Williams.

2435(1) - Ffens bren rhwng Maes Graean a Cefn Gelltgwm – Adroddoddwyd bod y gwaith wedi eu cwblhau ond bod ambell styllen ar goll ar y ffens cytunwyd i adael y cofnod ymlaen er mwyn gwirio bod y gwaith wedi ei gwblhau.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn – Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Sir am ddiweddariad yng nghyfarfod mis Hydref.

2440(3) – Cae Chwarae Ty Llwyd – Adroddodd y Cadeirydd Aron Roberts bod grant o £7500 wedi ei gael ar gyfer gwneud y parc. Cytunwyd y byddai'r ffurfleni caniatâd yn cael eu harwyddo ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn i'r gwaith gychwyn ar wythnos yr 22ain o Fedi.

2440(5) - Arian Llys Ednowain – Derbyniwyd 2 e-bost yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer defnyddio arian Llys Ednowain. Cytunodd Iwan Jones i roi blwch syniadau yn y siop. Cytunwyd i drafod yr awgrymiadau yn y cyfarfod nesaf.

2441(2) - Bron Gwyndŷ – Adroddodd y Clerc bod y mater wedi ei gyfeirio ymlaen i Gyngor Gwynedd.

2456(1) – Diod Feddwol yn y Neuadd - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones nad oedd wedi cael cyfle i fynd i'r 'safe' eto i edrych ar y dogfennau.

2456(3) – Cae chwarae Cefn Gwyn - Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad ar lafar y bydd clo yn cael ei roi ar y giât. Adroddwyd bod tyllau ar y sleid a'u bod yn finiog. Cytunwyd i gysylltu a Cyngor Gwynedd i wirio os yw'r clo wedi ei osod ac hefyd i adrodd am gyflwr y sleid.

2464(1) - Gor-yrru yn Stesion - Adroddodd y Clerc nad oedd diweddariad pellach, adroddodd y Cadeirydd bod y traffig wedi bod yn dod trwy Stesion a'r pentref pan ddigwyddodd y ddamwain ym mis Awst.

2464(5) - Sedd Wâg – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn os oedd angen etholiad ond gan nad oedd neb wedi dangos diddordeb cytunwyd cyfethol Miss Glain Williams yn aelod o'r Cyngor. Cytunwyd ymhellach i'w gwahodd i'r cyfarfod ar y 1 Hydref 2025.

2470(1) – Parc Bryn Glas - Adroddwyd bod Gwasanaethau Tir a Choed wedi clirio Parc Bryn Glas. Codwyd pryder os bydd yr hysbysfwrdd yn cael ei dynnu'n llwyr, bydd yn gadael twll dur sgwâr yn y ffens ddur. Mae rhai aelodau o'r gymuned yn mynd â'u plant ifanc i chwarae yn y safle ac mae perygl y gallai plentyn redeg yn syth allan drwy'r twll hwn a gwynebu'r palmant ar yr ochr arall heb unrhyw rwystr corfforol uwchben y wal fach. Maen't eisoes wedi tynnu'r ffenestri arddangos oedd wedi torri, ond cyn symud ymlaen i dynnu'r bwrdd yn gyfan gwbl maen't angen cadarnhad gan y Cyngor eu bod yn fodlon i gael gwared arno'n llwyr gyda'r twll yn weddill. Penderfynwyd i holi'r Cynghorydd Sir os oes unrhyw arian ar gael i wneud maes parcio bychan ym Mryn Glas.

2470(2) – Trydan i'r Diffribiliwr yn Stesion - Adroddodd y Clerc nad oes pwynt trydanol i'w gael ar ochr allanol y giât yn CCF. Penderfynwyd i gysylltu'n uniongyrchol gyda Scottish Power i ofyn pe bai modd cael trydan o'r polyn sydd ar ochr allanol y giât.

2470(3) - Wal tu ôl i'r Cross Foxes - Adroddwyd bod e-bost wedi ei dderbyn gan Mr Gwyn Evans Cyngor Gwynedd yn nodi eu bod am yrru swyddog i edrych ar y wal oedd wedi dymchwel tu ôl i'r Cross Foxes, ond mwy na thebyg mai cyfrifoldeb y tir feddianwr ydi hyn.

**2474 - GOHEBIAETH**

(1) Adroddwyd bod y Cynghorydd Hefin Jones wedi cysylltu gyda Mr Steffan Williams a dywedodd bod swydd ar gyfer gweithiwr ieuenctid wedi ei cael ei hysbysebu ar wefan Cyngor Gwynedd a bod estyniad wedi ei roi ddwy waith a neb wedi ymgeisio. Mae'r dyddiad cau ar ddydd Gwener y 5ed o Fedi. Adroddwyd bod hyn wedi ei hysbysebu ar Facebook y Cyngor yn ogystal. Os nad oes ymgeiswyr yna ni fydd Clwb Ieuenctid yn Nhrawsfynydd.

(2) Adroddwyd bod ail e-bost wedi ei yrru gan Mr Elfed Wyn ap Elwyn, Cydlynydd newydd Prosiect Neuadd i'r Dyfodol Trawsfynydd yn gofyn am syniadau i defnydd o'r neuadd. Cytunwyd i ymateb y byddwn yn dod yn ôl ato pe feddyliwn ni am unrhyw syniadau yn y cyfamser.

(3) Gyrrwyd holiadur i'r Cynghorwyr ei gwblhau ynghylch y newid diweddar yn strategaeth yr NDA.

(4) Copiwyd y Cyngor i mewn i e-byst gan un o drigolion y pentref yn datgan ei bryder ynglŷn a diffyg mynediad i gefn 1-6 Bro Prysor a'r ceir o amgylch Garej Lon.

(5) Derbyniwyd e-bost gan un o drigolion Cefn Gwyn yn mynegi pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol gan griwiau o bobl ifanc yn ystod digwyddiad y cneifio cyflym. Nodwyd bod sŵn, plant ifanc wedi meddwi, a phobl o amgylch y pentref tan oriau mân y bore wedi amharu ar dawelwch trigolion, yn enwedig yr henoed. Cadarnhawyd bod trefnwyr y digwyddiad wedi cymryd rhai camau diogelwch, ond pwysleisiwyd bod angen atebolrwydd ychwanegol gan drefnwyr a'r dafarn i reoli'r sefyllfa. Gofynnwyd am fesurau pendant cyn digwyddiadau'r dyfodol megis y Sioe er mwyn sicrhau trefn a diogelwch i'r gymuned ehangach. Penderfynwyd i ymateb i'r e-bost yn nodi bod yn ddrwg iawn gan Gynghorwyr y pentref i glywed am eu profiad, on dylid pwysleisio'n glir nad oedd y Cyngor Cymuned yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Penderfynwyd nodi yn y llythyr y dylent gysylltu â'r heddlu a rhoi gwybod iddynt am unrhyw achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os bydd unrhyw ddigwyddiadau pellach, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cofnodi'n swyddogol er mwyn i'r awdurdodau weithredu.

(6) Derbyniwyd e-bost gan Mr Adrian Williams Cyngor Gwynedd yn nodi bod gwaith ail wynebu am gychwyn ar y 27ain o Awst am dair wythnos.

(7) Ysgol Ddeintyddol - Derbyniwyd e-bost yn gofyn i'r Cyngor i gefnoi'r cais i gael ysgol ddeintyddol ym Mangor. Cytunwyd cefnogi'r cais ac anfon llythyr i'r AS Jeremy Miles, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal.

(8) Cais Cynllunio - Cais Rhif: NP5/78/598 Adeiladu cabanau pren newydd gyda decin, Cabanau 32 & 190, Pentref Gwyliau Trawsfynydd, Bronaber. LL41 4YB. Derbyniwyd a chymeradwywyd y cais.

(9) Cafwyd cais gan drefnwyr digwyddiad beicio *Ride Cymru* i ddefnyddio rhan o faes parcio Canolfan Iechyd Trawsfynydd fel man i stopio ar y 12fed Medi 2025. Cytunodd y Cyngor i gefnogi'r cais yn amodol ar ganiatâd gan Gyngor Gwynedd.

(10) Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad fel Cynghorydd Cymuned gan y Cynghorydd Annest Smith oherwydd ymrwymiadau personol yn ystod y flwyddyn nesaf a'i bod yn symud o'r plwyf. Diolchwyd iddi am ei gwaith gwerthfawr ers 2019 a dymunwyd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

(11) Cafwyd gwahoddiad i ddathliad Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yng Nghanolfan Ymwelwyr Trawsfynydd, ar y 18fed o Fedi 2025. Gofynnwyd i'r Cyngor gadarnhau presenoldeb erbyn dydd Iau, yr 11eg o Fedi. Nodwyd bod 5 aelod wedi mynegi diddordeb mewn mynychu'r digwyddiad.

(12) Adroddwyd y bydd trelar arddangosfa gan yr NDA yn y Sioe Amaethyddol. Pwysleisiwyd bod hwn yn gyfle i fynegi barn am y safle.

<u>2475 - ADRODDIAD ARIANNOL</u>

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol a cytunwyd ar y taliadau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

(2) Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi anfon yr holl ddogfennau i'r Swyddfa Archwilio ar gyfer yr Awdit Allanol ers mis Mehefin ond nid oedd unrhyw adroddiad na chadarnhad wedi dychwelyd.

## 2476 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Adroddodd y Swyddog Ariannol nad oedd Cyngor Gwynedd wedi ffonio'n ôl yn dilyn iddi holi am y bin brown ar gyfer Gardd Salem. Cytunwyd i ail ofyn i Gyngor Gwynedd. Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams nad oedd yn hapus i fynd ar bin gwyrdd yn llawn gwair unwaith yn rhagor i'r ffordd gan ei fod wedi brifo ei gefn yn gwneud hyn.

(2) Adroddwyd bod Gwasanaethau Tir a Choed yn aros am y tywydd i fod yn sych er mwyn cwblhau'r gwaith o roi chwyn laddwyr yn Pencefn.

(3) Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts bod y ffens Cae chwarae maes Gwyndy gyda'r 'chain link' sy'n cefnu at dir Pandy gyda tyllau mawr ynddo. Cytunwyd i yrru e-bost i Gyngor Gwynedd.

(4) Adroddodd y Cynghorydd Annest Smith bod cerbyd wedi taro dwy ochr canllaw pont Tai'r Cynhaeaf nes nad ydyw'n saff. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Annest Smith yn gyrru lluniau ymlaen i'r Clerc er mwyn gyrru nhw ymlaen i Cyngor Gwynedd.

(5) Adroddwyd bod y Cneifio Cyflym wedi bod yn boblogaidd a llwyddiannus a casglwyd £500 i'r Ambiwlans Awyr, £500 i Ysgol Bro Hedd Wyn a £500 i'r Ysgol Feithrin o'r digwyddiad.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 2477 - ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref - Adroddodd y Cynghorydd Hefin nad oedd diweddariad pellach.

CYFARFOD NESAF AR Y 1AF O HYDREF